# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## DYDD IAU, 5ED EBRILL, 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, S.A. Curry, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips a J.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd B.A.L. Roberts, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch ceisiadau cynllunio S/36834 and S/36835;
Y Cynghorydd A.D.T. Speake, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio W/35730;
Y Cynghorydd A. Vaughan-Owen, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio W/36812.

**Hefyd yn bresennol:**
Mr G. Morgan, Cynllunydd Cludiant gyda Fframwaith Atkins

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr J. Edwards | - | Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig |
| Mr G. Noakes | - | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu |
| Mr J. Thomas | - | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu |
| Mr S. Murphy | - | Uwch Gyfreithiwr |
| Mr K. James | - | Peiriannydd Cynorthwyol Cydgysylltu Cynllunio |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 12.10 p.m.**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd G.B. Thomas, yn sgil marwolaeth ei fam. Ar ran y Pwyllgor, estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad dwysaf â'r Cynghorydd Thomas a'i deulu.

### 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Dot Jones | Cais Cynllunio W/36812 – Adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, ynghyd â chae chwarae a man chwarae amlddefnydd newydd, ar gyfer 210 o ddisgyblion a 30 o blant meithrin, ynghyd â gwaith cysylltiedig o ran tirweddu, mynediad a seilwaith, ym Mharc Hamdden Gors-Las, Heol Cefneithin, Gors-Las, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA14 7HY | Mae wedi mynegi barn am y cais o'r blaen. |

## 3. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod, a bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Cynllunio drafod â'r ymgeisydd y cyfraniad tuag at wella ysgolion lleol y dalgylch:-**

| | |
|---|---|
| **S/36380** | **Cynigir adeiladu 14 o dai fforddiadwy newydd ar ddarn o dir diffaith ar ddiwedd ystad dai bresennol Garreglwyd. Bydd y rhan fwyaf o'r tai ar gyfer 4 person ac â 2 ystafell wely, ond bydd dau dŷ ar gyfer 7 person ac â 4 ystafell wely, ar dir yn Garreglwyd, Pen-bre, Porth Tywyn, SA16 0UH.** |

**3.2 PENDERFYNWYD gwrthod y ceisiadau cynllunio canlynol, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio, gan fod y Pwyllgor o'r farn fod y ceisiadau yn mynd yn groes i bolisïau GP1 a H3 o'r Cynllun Datblygu Lleol.**

| | |
|---|---|
| **S/36834** | **Newid defnydd o fod yn breswylfa 4 ystafell wely, Dosbarth C3 i fod yn dŷ amlfeddiannaeth 4 ystafell wely, Dosbarth C4. Newidiadau cysylltiedig i ddwy ffenest flaen i ddarparu mynediad mewn argyfwng yn 9 Teras Great Western, Llanelli, SA15 2ND.**<br><br>Daeth sylw i law a wrthwynebai'r datblygiad uchod, ac a ail-bwysleisiai'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys y pwyntiau canlynol:-<br><br>• Nid oes angen amdano yn yr ardal am fod saith tŷ amlfeddiannaeth yn yr ardal eisoes a byddai'r cais hwn yn arwain at ormodedd ohonynt;<br>• Mae Stryd Siôr yn unffordd ac mae pobl yn ei defnyddio fel tramwyfa i gyrraedd yr ysgol newydd;<br>• Y pryder yn y gymuned am fod llawer o bobl hŷn a theuluoedd yn byw yn yr ardal;<br>• Mae tai eraill dan sylw yn yr ardal o ran eu troi'n dai amlfeddiannaeth posibl;<br>• Dylwn fod yn codi proffil yr ardal oherwydd bydd y Ganolfan Lesiant newydd gerllaw.<br><br>Ymatebodd y Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio) a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd. |

| | |
|---|---|
| S/36835 | **Newid defnydd o fod yn breswylfa 4 ystafell wely, Dosbarth C3 i fod yn dŷ amlfeddiannaeth 4 ystafell wely, Dosbarth C4. Newidiadau cysylltiedig i ddwy ffenest ystafell wely ar y llawr cyntaf i ddarparu mynediad mewn argyfwng yn 7 Teras Great Western, Llanelli, SA15 2ND.**<br><br>Daeth sylw i law a wrthwynebai'r datblygiad uchod, ac a ail-bwysleisiai'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys y pwyntiau canlynol:-<br><br>• Nid oes angen amdano yn yr ardal am fod saith tŷ amlfeddiannaeth yn yr ardal eisoes a byddai'r cais hwn yn arwain at ormodedd ohonynt;<br>• Mae Stryd Siôr yn unffordd ac mae pobl yn ei defnyddio fel tramwyfa i gyrraedd yr ysgol newydd;<br>• Y pryder yn y gymuned am fod llawer o bobl hŷn a theuluoedd yn byw yn yr ardal;<br>• Mae tai eraill dan sylw yn yr ardal o ran eu troi'n dai amlfeddiannaeth posibl;<br>• Dylwn fod yn codi proffil yr ardal oherwydd bydd y Ganolfan Lesiant newydd gerllaw;<br>• Mae'r holl strydoedd cyfagos yn ddwyffordd ond mae Stryd Siôr bellach yn unffordd, sydd wedi gwaethygu'r problemau parcio ar strydoedd eraill. |

**3.3 PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhesymau dros wrthod a ddrafftiwyd gan y Pennaeth Cynllunio, fel y'u manylwyd yn yr adroddiad, mewn perthynas â'r cais cynllunio canlynol y gwrthododd y Pwyllgor Cynllunio roi caniatâd cynllunio iddo, yn groes i argymhelliad y swyddog, ar 20 Chwefror 2018:-**

| | |
|---|---|
| S/35215 | **Datblygiad preswyl i gynnwys 51 o breswylfeydd ynghyd â gwaith cysylltiedig ar dir ger Clos y Benallt Fawr, Fforest, Abertawe, SA4 0TQ.** |

## 4. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**4.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/36812** | **Adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, ynghyd â chae chwarae a man chwarae amlddefnydd newydd, ar gyfer 210 o ddisgyblion a 30 o blant meithrin, ynghyd â gwaith cysylltiedig o ran tirweddu, mynediad a seilwaith, ym Mharc Hamdden Gorslas, Heol Cefneithin, Gorslas, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA14 7HY.**<br><br>[NODER: Gan iddi ddatgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach, fe wnaeth y Cynghorydd D. Jones adael y cyfarfod cyn i'r cais gael ei ystyried a chyn y gwnaed penderfyniad yn ei gylch.]<br><br>Cafwyd sylw oedd yn mynegi pryderon ynghylch y cais ac roedd yn cynnwys y canlynol:-<br><br>• Y cynnydd o ran traffig a pharcio o ystyried faint o draffig sydd yn yr ardal hon yn ystod yr oriau brig, a seilwaith y ffordd, nad ystyrir yn ddelfrydol ar gyfer datblygiad o'r fath;<br>• Dylid cynnwys amod bod cynllun teithio ar waith unwaith y bydd yr ysgol yn agor, i sicrhau bod ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio, megis cerdded a beicio, yn cael eu defnyddio;<br>• Dylid cynnwys amod bod asesiad trafnidiaeth yn cael ei gynnal 6 mis ar ôl agor i adolygu'r tagfeydd traffig posibl ar y ffyrdd cyfagos;<br>• Dylid cynnwys amod bod cyfyngiadau cyflymder addas a chroesfannau diogel i gerddwyr yn cael eu mabwysiadu ar bob heol sy'n gysylltiedig â'r gyffordd chwe-ffordd;<br>• Dylid pennu amodau i sicrhau na fydd dŵr wyneb yn effeithio ar weddill y parc a'r tai cyfagos;<br>• Ar hyn o bryd mae trigolion Gors-las yn cael myned pryd y mynnant i'r parc a'r cae chwarae a theimlwyd na ddylid gosod amodau o ran yr amserau y gellid defnyddio'r llefydd hyn. Dylid gosod amod fod y gymuned yn cael myned yn agored i'r maes chwarae amlddefnydd a'r cae chwarae yn syth ar ôl oriau'r ysgol drwy gydol y flwyddyn ac na ddylai'r Awdurdod Lleol na chwaith yr ysgol fod yn gallu newid y cytundeb hwn.<br><br>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu a'r Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio), i'r materion a godwyd. |

**4.2 PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| **W/35730** | **Adeiladu dwy uned A1 ac un uned A3 ynghyd â llefydd parcio cysylltiedig ar hen safle Cartref Tawelan, Llwyn Onn, Caerfyrddin, SA31 3PY.**<br><br>**Y RHESWM:** Oherwydd y pryderon a godwyd ynghylch diogelwch ar y ffordd.<br><br>Cafwyd sylw a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle yn sgil pryderon ynghylch y cynnydd a grëir mewn traffig, ac o ystyried yr hanes a fu o ddigwyddiadau a gwrthdrawiadau traffig yn yr ardal.<br><br>Yn unol â phrotocol y Pwyllgor Cynllunio, roedd y gwrthwynebwyr a oedd wedi gofyn am gael siarad ynghylch y cais hwn wedi dewis cyflwyno eu sylwadau yn y cyfarfod a fydd yn dilyn yr ymweliad â'r safle. |

**4.3 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL wrthod y cais cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/36584** | **Amrywio Amod 4 o gais W/34406 (ffens acwstig) yn Gwastod Abbot, New Inn, Pencader, SA39 9AZ.** |

**5. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-**

**5.1. 23AIN IONAWR, 2018**

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod y penderfyniad parthed cofnod 3 yn unfrydol ac y dylid newid y cofnodion yn unol â hynny.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 23ain Ionawr, 2018 yn gywir, yn amodol ar gynnwys y newid uchod.**

**5.2. 20FED CHWEFROR, 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 20fed Chwefror, 2018 yn gywir.**

**5.3. 8FED MAWRTH, 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 8fed Mawrth, 2018 yn gywir.**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr*

*oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]

___________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**